CYFRES A8

# amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth



Storïau Beiblaidd o'r Actau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

## Stori 1 Pedr yn helpu Dorcas



DARLLENWCH
Actau 9: 32-43

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Dod â Dorcas nôl yn fyw**

Aeth Pedr i lawer o drefi a phentrefi i sôn wrth bobl am Iesu Grist. Roedd gwraig o'r enw Dorcas yn byw mewn tref o'r enw Jopa ar lan y môr.

**Beth oedd enw'r dref lle roedd Dorcas yn byw?**

**J __ __ __ .**

Roedd Dorcas yn caru'r Arglwydd Iesu ac felly roedd hi'n gwneud ei gorau i helpu pobl eraill.
Un diwrnod, aeth Dorcas yn sâl a marw. Roedd pawb yn drist iawn. Aeth Pedr i dŷ Dorcas. Aeth i mewn a phenlinio a gweddïo. Yna, dywedodd Pedr, "Dorcas, cod!"



Gafaelodd Pedr yn llaw Dorcas a'i helpu i godi. Roedd hi'n fyw ac yn iach unwaith eto! Ar ôl y wyrth arbennig hon, daeth llawer o bobl i gredu yn Iesu a dod yn Gristnogion.

**Lliwiwch y llun.**